Cartrefi Cymunedol Gwynedd

Cronfa Buddsoddi Cymunedol

Canllaw cyflwyno ceisiadau

CARTREFI CYMUNEDOL
GWYNEDD

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Sut i gymhwyso 5

Pwy sy'n gallu gwneud cais am nawdd? 6

Pwy yw'r rhai na allant wneud cais am nawdd? 8

Ceisiadau anghymwys 9

Costau y gallwn eu hariannu 10

Costau na allwn eu hariannu 10

Deilliannau enghreifftiol 11

Dogfennau angenrheidiol 14

Enghraifft o arweiniad polisi 15

Prosesu'r cais 17

Cyflwyniad

Rhaglen y Gronfa Buddsoddi cymunedol

Anelwyd y rhaglen at gymunedau a sefydliadau gwirfoddol sy'n medru dangos y gall grant ddylanwadu'n gadarnhaol ar gymunedau, a gwella safon byw preswylwyr Gwynedd.

Bwriad y Gronfa Buddsoddi yn Gymuned yw cryfhau a datblygu grwpiau a mentrau o fewn y sector wirfoddol. Pwrpas hyn yw galluogi'r sector wirfoddol i allu chwarae rhan gyflawn o fewn cymunedau Gwynedd, trwy hybu un neu fyw o'r amcanion isod:

i. Gwella cyfleoedd cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol a hamdden

ii. Cynyddu cyfleoedd gwaith, menter a sgiliau pobl leol, yn arbennig y to iau, a'r rhai sydd dan anfantais, a hybu cyfle cyfartal i bawb

iii. Diogelu a gwella amgylchedd a rhwydweithiau lleol, a gwneud defnydd effeithiol o dir ac adeiladau

iv. Gwella diogelwch cymunedau ac atal neu ostwng yr ofn o dor-cyfraith

v. Annog, gwarchod a chyfoethogi'r amgylchedd / gostwng llygredd

vi. Annog a chefnogi gweithredu gwirfoddol a gwirfoddoli a chyd-weithio i wireddu cydamcanion

vii. Annog cyd-weithio, a meithrin balchder a hyder

viii. Cyfrannu at leihau amddifadedd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig

Mae esiamplau o brosiectau *y **gall*** y rhaglen eu cefnogi yn cynnwys:

- Gwelliannau i adnoddau neu gyfleusterau cymunedol
- Cynllun sy'n cynorthwyo pobl i gael swyddi llawn neu ran amser, swyddi sy'n recriwtio, cefnogi neu'n datblygu gwirfoddolwyr
- Cynlluniau amgylcheddol bychan lleol
- Cynllun hyfforddi sy'n dysgu sgil newydd a rhoi cymhwyster i bobl, e.e. cymorth cyntaf, sgiliau pwyllgor, hylendid bwyd, trefnu digwyddiadau, Iechyd a Diogelwch, casglu arian, cysylltu â'r wasg/ cyfryngau a.y.b.
- Sefydlu menter gymdeithasol newydd

- Sefydlu gwasanaeth neu weithgaredd newydd y mae ei fawr angen o fewn y gymuned
- Sefydlu cynllun trafnidiaeth bychan, i gynorthwyo pobl sy'n ei chael yn anodd i gyrraedd cyfleoedd oherwydd eu lleoliad
- Cynnig llefydd mewn clybiau ar ôl ysgol, cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, grwpiau chwarae a methrinfeydd
- Gweithgareddau sy'n hybu gwirfoddoli a denu mwy o bobl newydd i fod yn wirfoddolwyr, e.e. gweithgareddau addysgol, clybiau cinio, sefydlu caffi /siop gymunedol, cynnig adnoddau ar gyfer ymwelwyr, sefydlu menter gymunedol
- Trefnu digwyddiadau – sef digwyddiadau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli na dderbyniodd nawdd gennym o'r blaen, er mwyn gwella cynaladwyedd ariannol y digwyddiad
- Cynllunio a datblygu gwefan. Mewn cais o'r fath dylid cynnwys gwasanaeth hyfforddi gwirfoddolwyr er mwyn iddynt allu diweddaru a chynnal y wefan
- Datblygu adnoddau marchnata a gweithgareddau cymunedol e.e. cynhyrchu defnyddiau marchnata/ gwybodaeth/ byrddau gwybodaeth neu daflenni hanesyddol, a ddatblygwyd gan wirfoddolwyr
- Paratoi Cynllun Busnes; talu ffioedd proffesiynol, comisiynu ymgynghorydd busnes ar gyfer menter / gweithgaredd newydd fydd yn gwella cynaladwyedd ariannol, neu ar gyfer grŵp sy'n wynebu trafferthion ariannol
- Astudiaeth ddichonoldeb / gwerthusiad opsiynau; talu am ffioedd ymchwil i ddichonoldeb ac ymarferoldeb menter / gweithgaredd newydd
- Asesiad Effeithlonrwydd Egni; talu ffioedd proffesiynol asesu effeithlonrwydd y defnydd o egni mewn adeilad cymunedol a pharatoi adroddiad yn nodi'r camau y dylid eu cymryd i wella perfformiad

Mae'r Gronfa Buddsoddi cymunedol yn adlewyrchu bwriad a thargedau amcanion elusennol Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Mae'n bwysig nodi fod y gefnogaeth ariannol ar gyfer cynlluniau penodol. Dylai grwpiau sydd eisoes wedi derbyn cefnogaeth cyllid ariannol sicrhau eu bod yn cyflwyno tystiolaeth glir rhwng cwblhau un cynllun a gwneud cais am ragor o nawdd er mwyn dechrau cynllun newydd.

Bydd yr holl geisiadau yn cael eu hasesu yn ôl eu haeddiant.

Sut i gymhwyso

Rhaid i geisiadau fod er budd cymunedau o fewn Gwynedd, ond gallant gynnwys ardaloedd cod post sydd y tu hwnt i ffiniau Gwynedd, ond sy'n rhan o ystâd Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

Gall y prosiectau fod er budd y gymuned ehangach, ac nid dim ond er budd tenantiaid.

Mae sefydliadau cymwys yn cynnwys elusennau hen a newydd, grwpiau dielw, mentrau lleol a sefydliadau cymunedol.

Ni ellir gwneud cais am fwy nag un grant yn flynyddol.

Rhagdybir y bydd ceisiadau yn seiliedig ar gynlluniau neu wasanaethau newydd a fydd yn cyflawni amcanion penodol ac eglur. Ni roddir nawdd ar gyfer cynnal a chadw cyffredinol a rheolaidd adeiladau, nac ar gyfer cynnal gweithgareddau neu wasanaethau parhaol.

Pwy sy'n gallu gwneud cais am nawdd?

Gall grwpiau cymunedol gyda chynllun o fewn Gwynedd sy'n darparu ar gyfer preswylwyr y sir gyflwyno cais am gymorth o'r Gronfa Buddsoddi cymunedol. Mae'n bwysig fod y meini prawf canlynol yn cael eu bodloni:

- Rhaid i'r sefydliad fod yn un gwirfoddol neu gymunedol, wedi ei leoli, neu'n cael ei weithredu ar ran cynllun o fewn Gwynedd
- Ni all eich sefydliad rannu elw.
- Rhaid cael fframwaith cyfreithiol a chyfansoddiadol. Dylai'r cyfansoddiad neu'r rhestr o reolau gynnwys 'cymal diddymu' sy'n sicrhau fod unrhyw asedau a brynir gyda grant o'r gronfa yn cael eu cadw er budd y gymuned, hyd yn oed os diddymir y grŵp, neu os daw'r grŵp i ben. Heb gymal o'r fath bydd y cynnig grant a thermau dilynol yn pennu bod yr ased, os daw'r grŵp i ben o fewn cyfnod o 5 mlynedd, yn cael ei drosglwyddo i gynllun neu grŵp tebyg gyda sêl bendith CCG.
- Rhaid i'ch sefydliad gael strwythur rheoli clir.
- Rhaid cael rheolaeth ariannol eglur, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu (gyda datganiadau amgaeedig am gyfnod o 3 mis lle bo modd) yn enw'r sefydliad, gyda'r angen am lofnod o leiaf dau aelod o'r grŵp i wneud unrhyw daliad neu siec. (Noder ei bod yn arfer da sicrhau nad yw'r ddau unigolyn yn perthyn)
- Rhaid cael cyfrifon blynyddol (ar gyfer sefydliadau sy'n bodoli ers dros 12 mis) neu ragolwg ariannol ar gyfer sefydliadau newydd (llai na 12 mis oed) sy'n cael eu cyflwyno, eu harchwilio / cymeradwyo'n annibynnol
- Rhaid rhedeg y sefydliad yn seiliedig ar egwyddorion sy'n cydymffurfio â deddf gwlad ar gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb gweithwyr a gwirfoddolwyr
- Rhaid dangos deallusrwydd ac ymrwymiad i gydraddoldeb mewn materion yn ymwneud â mynediad, iaith, diwylliant, rhyw ac ethnigrwydd.
- Rhaid cael nodau ac amcanion sy'n gydnaws â'r gweithgareddau a gaiff eu hariannu trwy'r grant
- Rhaid dangos fod gweithgareddau'r ymgeisydd yn cyflawni un neu fwy o'r nodau canlynol: creu swyddi, annog pobl yn ôl i'r gweithle, trefnu ac ysbrydoli cymunedau
- Rhaid dangos fod grwpiau eraill o fewn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd / cynllun
- Rhaid dangos fod y gweithgaredd / cynllun yn cyfrannu tuag at adfywiad economaidd hirdymor

- Rhaid dangos fod egwyddorion gwerth am arian wrth wraidd datblygu/ gweithredu a rhedeg y cynllun, er enghraifft fod y cynllun wedi dilyn y Canllawiau Ceisiadau Tendr (gellir cael copïau o swyddfa Cist Gwynedd) ar gyfer gwaith / gwasanaethau, yn arbennig wrth drafod cynlluniau yn ymwneud â chyfalaf.

- Rhaid gweithredu yn unol ag egwyddorion sy'n gwarchod plant ac oedolion bregus, yn unol â deddf gwlad. Er enghraifft, Polisi Cyfleoedd Cyfartal, Polisi Plant ac Oedolion Bregus a.y.b.

Cysylltwch, os gwelwch yn dda, ag Uwch Swyddog Cist Gwynedd os mai hybu crefydd yw prif amcan eich sefydliad.

Rhaid i bob cynllun a gaiff ei gymeradwyo gydymffurfio gyda thermau a rheolau'r Gronfa Fuddsoddi Gymunedol. Mewn rhai eithriadau, gellir pennu telerau arbennig i gynlluniau.

Pwy yw'r rhai na allant wneud cais am nawdd?

Ni ellir cefnogi ceisiadau gan y canlynol:

- Unigolion
- Busnesau preifat
- Cyrff statudol
- Sefydliadau cenedlaethol
- Cynghorau plwyf, tref a chymuned
- Sefydliadau gydag incwm digyfyngiad a / neu yn meddu ar arian wrth gefn (o bob ffynhonnell) sy'n fwy na £50,000
- Sefydliadau y bernir eu bod yn fregus yn ariannol neu sefydliadau nas credir bod eu systemau rheoli ariannol yn gadarn
- 'Ffrindiau grŵp' lle bydd y sawl a gaiff y budd terfynol yn amlwg yn gorff statudol
- Clybiau diddordeb arbennig lle nad oes budd i'r gymuned ehangach, neu sydd ag aelodaeth gaeedig
- Sefydliadau nad ydynt wedi eu sefydlu yn y Deyrnas Unedig

Ceisiadau anghymwys

Ni fydd ceisiadau am gymhorthdal yn gymwys:

- Os nad ydynt yn cwrdd ag amcanion ein themâu nawdd neu amcanion elusennol
- Os bydd y rhai sy'n cael budd o'r prosiectau yn preswylio y tu hwnt i ffiniau ein cymunedau cydnabyddedig.
- Os mai hybu crefydd neu ddaliadau gwleidyddol yw prif amcanion yr ymgeiswyr
- Os yw'r gweithgareddau ynghlwm â dyletswydd statudol, neu'n cymryd lle gwasanaeth statudol
- Os yw'r gweithgareddau'n groes i fuddiannau'r grŵp sy'n gwneud y cais
- Os bydd unigolyn yn cael budd neu'n gwneud elw
- Os rheolwyd grantiau blaenorol yn anfoddhaol
- Os yw'r cais yn un am gefnogaeth bellach ar gyfer yr un gweithgaredd, neu fod yr un grŵp o unigolion yn elwa. Gall y gronfa gyfyngu ar yr amser y bydd grŵp neu gynllun yn derbyn cefnogaeth.

Costau y gallwn eu hariannu

Gallwn gyfrannu tuag at gostau cyfalaf a refeniw cynllun dros gyfnod o hyd at 12 mis.

Gallwn gyfrannu hyd at 100% o gyfanswm costau cynllun. Bydd y gronfa'n hybu gweithio mewn partneriaeth, a gellir ariannu cyfran o gynlluniau lle cafodd gweddill yr arian ei sicrhau a lle gellir dangos tystiolaeth o'r nawdd hwnnw. Gall cynlluniau sydd wedi sicrhau nawdd cyfatebol gael blaenoriaeth er mwyn ychwanegu gwerth i'r gronfa.

Nodwch na all cyfanswm y cymhorthdal fod dros £10,000, ac y dylai'r ***holl gostau*** **fod yn rhai uniongyrchol i'r cynllun gyda'r bwriad o gyflawni amcanion y cynllun hwnnw.**

Costau na allwn eu hariannu

- Costau teithio a gwario ar gyfer teithio dramor
- Gweithgareddau'n ymwneud â lles anifeiliaid
- Apeliadau cyffredinol
- Dyledion neu gostau ôl-weithredol (hynny ydy costau oedd yn ddyledus neu wedi eu gado cyn i'r cais gael ei gymeradwyo)
- Ffioedd ysgol
- Offer meddygol neu ymchwiliol
- Ffioedd banciau neu archwilwyr
- Di- brisiad neu amorteiddio
- Treth ar Werth (TAW) y gellir ei hawlio nôl
- Ffioedd ar gyfer codwyr arian proffesiynol allanol neu annibynnol
- Cynlluniau pensiwn preifat

Noder nad yw'r uchod yn rhestr gyflawn.

Deilliannau enghreifftiol

Deilliant	Disgrifiad	Esiamplau o dystiolaeth y byddwn eu hangen ar gyfer monitro
Cyfanswm yr adnoddau cymunedol a grëwyd / gwelliannau *(mae hyn yn cynnwys unrhyw waith ar/ gwaith adnewyddu adeiladau ac adnoddau cymunedol)*	Gwelliannau i adnoddau yw gwelliannau sy'n cynyddu potensial neu werth ariannol eiddo, ac yn cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir yn y lleoliad.	Talebau Contractwyr Ffotograffau Dogfennau gweithgaredd lansio neu ddeunydd cyhoeddusrwydd
Nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd *(Mae hyn yn cynnwys swyddi sy'n cael eu creu'n uniongyrchol oherwydd y cymhorthdal.)*	Dylai'r swyddi fod yn rhai cyfystyr ag oriau swydd llawn amser, gyda disgwyliad y bydd y swydd yn parhau am o leiaf 6 mis (gwaith taladwy o 30 awr neu fwy'r wythnos) Gellir cynnwys swyddi rhan amser ar sail pro-rata (h.y. mae swydd 15 awr yr wythnos yn cyfrif fel 0.5 o swydd llawn amser). Er mwyn cyfrif fel swydd newydd ni all y swydd fod mewn perygl os na cheir nawdd gan yr ymddiriedolaeth. Er mwyn cyfrif fel swydd a ddiogelwyd, mae'n rhaid i'r swydd fod dan fygythiad heb nawdd o'r ymddiriedolaeth.	Swydd ddisgrifiadau a manylion am y person Manylion recriwtio (hysbyseb swydd) Manylion cytundebau cyflogaeth yn cadarnhau fod person wedi ei gyflogi, ac yn cynnwys hyd a chyfanswm oriau'r cytundeb
Nifer y rhai sy'n cael cymorth i ddatblygu sgiliau *(Rhaid cael o leiaf 6 awr o hyfforddiant i ddatblygu sgiliau. Nid oes rhaid i'r hyfforddiant arwain at gymhwyster ffurfiol.)*	Mae gweithgareddau'n gallu cynnwys hyfforddiant cyffredinol neu hyfforddiant galwedigaethol / penodol ar gyfer swydd. Nid oes rhaid i'r hyfforddiant arwain at gymhwyster ffurfiol.	Cynlluniau datblygu personol Portffolios personol Copïau o gofnodion presenoldeb yn dangos amseroedd a hyd yr hyfforddiant

Nifer yr oedolion sy'n cael NVQ Lefel 2 neu gyffelyb *(Mae hyn yn cynnwys y rhai hynny sy'n derbyn cymhwyster o ganlyniad i'r cynllun. Rhowch fanylion y cymhwyster o fewn y disgrifiad o'r cynllun)*	Mae'r cymhwyster Lefel 2 yn gyfystyr â 5 neu fwy lefel O, TGAU neu gyffelyb, BTEC neu ddiploma gyntaf /gyffredinol, GNVQ Canolradd, Diploma RSA	Enw'r person a'r cymhwyster a gafwyd Copi o'r cymhwyster a gafwyd
Nifer y mentrau a grëwyd *(Mae hyn yn cynnwys busnesau gydag amcanion cymdeithasol lle bydd yr arian a wneir, i raddau helaeth, yn cael ei ail fuddsoddi yn y gymuned, yn hytrach nag er mwyn gwneud elw)*	Busnesau gyda phrif amcanion cymdeithasol eu natur, lle bydd rhan fwyaf y gweddillion yn cael eu hail-fuddsoddi yn y busnes neu'r gymuned, yn hytrach nag er mwyn gwneud elw. Gellir cynnwys menter newydd pan fydd menter yn cychwyn ac yn parhau am o leiaf 12 mis o ganlyniad uniongyrchol i'r nawdd gan yr ymddiriedolaeth. Mae 'Dechrau Masnachu' yn golygu'r dyddiad pryd y bydd y fenter yn cofrestru ar gyfer TAW neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol (Dosbarth 2)	Enw'r fenter a thystysgrif ymgorffori neu ddogfen gyfansoddiadol gyffelyb Unrhyw ddatganiadau i'r wasg a wnaethpwyd
Nifer yr oedolion a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau byw'n iach *(Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau sy'n gwella iechyd. Er enghraifft mae iechyd unigolyn yn gwella trwy gymryd rhan mewn gweithgaredd / cynllun.)*	Cynhwysir gweithgareddau sy'n cyfrannu'n uniongyrchol tuag at wella canlyniadau yn ymwneud ag iechyd, gan gynnwys cyngor, chwaraeon, dosbarthiadau ymarfer corff a gweithgareddau. Pobl ifanc yw rhai o dan 18 mlwydd oed a dylid cynnwys y rhain ar wahân.	Rhestr y rhai a fynychodd (gan nodi os ydynt dros 18 mlwydd oed) Cyhoeddusrwydd Dyddiadau, amseroedd a lleoliadau pryd y cynhelir y sesiynau Ffotograffau Rhestr gweithgareddau / amserlen
Nifer y cynlluniau mynediad *(Gall hyn gynnwys cynlluniau fydd yn cynnig gwelliannau i gynllun sydd eisoes yn bodoli, neu wasanaeth newydd i ardal. Er enghraifft gofal plant, cyngor dyledion.)*	Cynlluniau sy'n lleihau ynysrwydd corfforol. Dangoswch sut y bydd y gymuned yn cysylltu gyda gwasanaethau nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.	Cyhoeddusrwydd
Nifer y cynlluniau trafnidiaeth *(Mae hyn yn cynnwys trafnidiaeth gymunedol, cynlluniau parcio, "olwynion*	Ni all cynlluniau sy'n gwella'r cysylltiadau gael eu cynnwys oni bai eu bod yn wahanol i'r ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus.	Amserlenni gwasanaethau gan gynnwys llwybr y teithiau Cofnodion yn dangos sut y defnyddir y

i'r gwaith" a.y.b.		gwasanaeth, maint yr ardal a gwybodaeth i gadarnhau'r defnydd o'r gwasanaeth
Nifer y llefydd gofal plant a grëwyd, gan gynnwys gofal ar ôl ysgol *(Gall hyn gynnwys cynlluniau chwarae ar ôl ysgol yn ogystal â gofalwyr cofrestredig a chynlluniau meithrinfeydd.).*	Nifer y lleoliadau gofal plant a gynigir sydd wedi eu cefnogi gan gynlluniau CRT. Gall y llefydd fod yn rhai llawn amser neu ran amser (e.e. cynlluniau chwarae ar ôl ysgol yn ogystal â gofalwyr cofrestredig a chynlluniau meithrinfeydd.) Noder na ellir gwneud mwy nag un cais i bob plentyn.	Lleoliadau'r llefydd gofal plant Dyddiad ac amseroedd y mae gofal plant ar gael Rhestr o'r rhai sy'n mynychu cynlluniau ar ôl ysgol a gwyliau
Nifer y gwirfoddolwyr newydd *(Gellir cynnwys gwirfoddolwyr newydd a recriwtiwyd er mwyn cynorthwyo i weithredu neu gymryd rhan yn eich cynllun)*	Mae gweithgaredd gwirfoddol yn golygu gwirfoddoli'n ffurfiol - rhoi cymorth yn ddi-dâl. Er mwyn cael eu cynnwys, rhaid i'r gwirfoddolwyr roi o'u hamser o leiaf unwaith y mis.	Enwau gwirfoddolwyr, dyddiad recriwtio, math o waith a dyddiadau gadael Cofnodion CRB

Noder y gall blaenoriaethau newid yn ystod y rhaglen.

Dogfennau angenrheidiol

Rhaid cyflwyno'r dogfennau canlynol cyn y gellir prosesu eich cais. Bydd y gofyn am rai dogfennau'n dibynnu ar natur y cynllun neu'r gweithgaredd a wneir.

- Datganiad banc gwreiddiol gan y banc a enwyd gennych (sy'n llai na 3 mis oed)
- Dogfennau'n cadarnhau perchnogaeth eiddo / tir y bwriedir ei ddatblygu
- Lle bo'n berthnasol, copi o brydles
- Lle bo'n berthnasol, caniatâd y perchennog i wneud y gwaith ar yr eiddo y gwneir y cais ar ei gyfer
- Lle bo'n berthnasol, copi o ganiatâd cynllunio yn unol â rheoliadau cynllunio lleol
- Lle bo'n berthnasol, tystiolaeth *nad oes* angen caniatâd cynllunio
- Cadarnhad fod gweithwyr sesiynol hunangyflogedig wedi derbyn cyngor am eu cyfrifoldebau i ddelio gyda'u cyfrifon treth incwm a threth yswiriant ar ffioedd
- Prisiau ysgrifenedig ar gyfer unrhyw wariant cyfalaf mwy na £250 neu ddau bris ysgrifenedig lle bo gwaith hyd at £5,000 yn cael ei ystyried
- Copi wedi ei arwyddo o gyfansoddiad eich sefydliad
- Cyfrifon cyfredol (datganiadau incwm ar gyfer sefydliadau llai n 12 mis oed)

Noder y gallwn ofyn am fwy o wybodaeth am gynllun yn ystod unrhyw ran o'r broses wrth ddelio gyda'ch cais.

Enghraifft o arweiniad polisi

I ddilyn mae esiampl o arweiniad ar gyfer Polisi Gwarchod Plant ac Oedolion Bregus.

DATGANIAD GWARCHOD PLANT AC OEDOLION BREGUS
Canllawiau

Mae gan bawb gyfrifoldeb i warchod a diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus

Mae CCG yn ymrwymo i'r egwyddor yma, ac i ddatblygu arferion da o fewn y grwpiau cymunedol y maent yn eu cefnogi.

Diffiniad o Blant a Phobl Ifanc
Y rhai hynny sy'n iau na deunaw mlwydd oed

Diffiniad o oedolyn bregus
Mae oedolyn bregus, yn ôl diffiniad Y Comisiwn Cyfreithiol, yn unigolyn sydd:

> *'gydag angen neu beidio am wasanaethau gofal cymunedol oherwydd rhesymau meddyliol, neu anabledd arall, oedran neu salwch; ac a all neu na all arbed ei hun rhag niwed difrifol a chymryd mantais arno gan eraill.'*

Er mwyn cael gwell eglurdeb mae rheolwyr y gronfa'n mabwysiadu canllawiau'r Adran Iechyd fod 'oedolyn' yn cyfeirio at unigolyn 18 neu hŷn, a bod unigolion gydag anawsterau dysgu, problemau iechyd meddwl, pobl hŷn a phobl gydag anableddau neu amhariad yn cael eu cynnwys o fewn y diffiniad hwn, yn enwedig lle bydd eu sefyllfa'n cael ei gymhlethu gan ffactorau ychwanegol, megis breuder corfforol neu salwch cronig, amhariad ar y synhwyrau, ymddygiad heriol, problemau alcohol a chyffuriau, problemau emosiynol a chymdeithasol, tlodi neu ddigartrefedd.

Bydd penderfyniadau'r gronfa yn seiliedig ar, ac yn adlewyrchu'r, egwyddorion a geir mewn deddfwriaeth a chanllawiau gan dybio:

- Mai lles y plentyn, person ifanc neu oedolyn bregus yw'r ystyriaeth bennaf
- Bod gan bob plentyn, person ifanc ac oedolyn bregus, beth bynnag fo'i oed, anabledd, rhyw, cefndir hiliol neu ethnig, cred grefyddol neu duedd rhywiol, yr hawl i gael ei warchod rhag niwed a chamdriniaeth.

Rhaid i bob grŵp sy'n gwneud cais am nawdd, ac sy'n cynnig gwasanaeth i blant, pobl ifanc ac oedolion bregus, feddu ar y canlynol:

- Polisi gwarchod plant a phobl ifanc derbyniol, sy'n cynnwys materion yn ymwneud â recriwtio a'r broses ddewis, a hefyd materion yn ymwneud a chyfrinachedd.

- Trefn berthnasol ar gyfer lleisio pryderon ynglŷn â gwarchod plant a phobl ifanc, sydd wedi ei chynllunio i gyd fynd gyda threfn Pwyllgor Gwarchod Plant yr Ardal Leol.

- Cod ymarfer yn tanlinellu ymddygiad derbyniol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion bregus

- Dylai pob grŵp sy'n bwriadu gweithio gydag oedolion bregus gael copi o 'Ganllawiau Gwarchod Oedolion Bregus Gogledd Cymru'. Mae copïau ar gael, naill ai gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd (01286 672255) neu Heddlu Gogledd Cymru (01492 517171). Mae copi o 'Ganllaw Gwarchod Plant 2008' ar gael i gyrff o fewn y trydydd sector drwy gysylltu â Mantell Gwynedd ar 01286 672626.

Ni all y gronfa roi grant oni bai fod y polisïau priodol mewn grym.

Prosesu'r cais

Sut gellir gwneud cais am nawdd?

Gallwch wneud cais am nawdd o'r Gronfa Buddsoddi Cymunedol trwy gwblhau'r ffurflen gais briodol. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi sylw manwl i'r cyfarwyddiadau, gan sicrhau fod eich cynllun yn cydymffurfio gyda'r canllawiau a'r meini prawf.

Gall Cartrefi Cymunedol Gwynedd roi arweiniad i chi. Cynghorir chi i gysylltu gyda Chydlynydd Cyswllt Cymunedol CCG, i drafod y cynllun cyn gwneud cais, sef:

Elin Morris, Cydlynydd Cyswllt Cymunedol
Ffôn: 0300 123 8084
Ebost: ymholiadau@ccgwynedd.org.uk

Dylid cyflwyno ceisiadau i;

Heather Williams, Uwch Swyddog Cist Gwynedd
Ffôn: 01286 679153
Ebost: cistgwynedd@gwynedd.gov.uk

Amserlen

Mae'r drefn o benderfynu ceisiadau gan y Gronfa Buddsoddi yn y Gymuned fel a ganlyn:

Dyddiad	Cyfnodau o fewn y drefn brosesu	Pwy sy'n gyfrifol
30 Mehefin 30 Medi 31 Rhagfyr	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich cais	Uwch Swyddog Cist Gwynedd
Gorffennaf Hydref Ionawr	Asesu a thrafod y ceisiadau a dderbyniwyd	Uwch Swyddog Cist Gwynedd a swyddogion perthnasol eraill
Gorffennaf/ Awst Tachwedd Chwefror	Argymhellion a phenderfyniadau	Pwyllgor Llywio a Phanel Cist Gwynedd
Gorffennaf/ Awst Tachwedd Chwefror	Ymgeiswyr yn cael gwybod am benderfyniad y Panel	Uwch Swyddog Cist Gwynedd

Pryd y dylid cyflwyno cais?

Dylid sicrhau fod y ffurflen gais wedi ei chwblhau a bod yr **holl ddogfennau cefnogol, technegol ac angenrheidiol wedi eu cyflwyno erbyn y dyddiadau uchod bob blwyddyn.**

Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar gyfer pob cais erbyn **Awst, Tachwedd neu Chwefror**.